


Emynau a Darlleniadau



Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor

Cymun Bendigaid ar Gân

Y Sul Cyntaf wedi'r Drindod | Sul y Cyfamod • 7 Mehefin 2026

Gosodiad

Offeren Byr yn C, Richard Runciman Terry (1864-1938)

Llywydd a Phregethwr

Deon Manon

Salm 50:7-15



Emyn Agoriadol



Ti yr hwn sy'n gwranddo gweddi,
atat ti y daw pob cnawd;
llef yr isel ni ddirmygi,
clywi ocheneidiau'r tlawd:
dy drugaredd, dy drugaredd
sy'n cofleidio'r ddaear faith,
sy'n cofleidio'r ddaear faith.

Minnau blygaf yn grynedig
wrth dy orsedd rasol di,
gyda hyder gostyngedig
yn haeddiannau Calfarî:
dyma sylfaen, dyma sylfaen
holl obeithion euog fyd,
holl obeithion euog fyd.

Hysbys wyt o'm holl anghenion
cyn eu traethu ger dy fron;
gwyddost gudd feddyliau 'nghalon
a chrwydriadau mynych hon:
O tosturia, O tosturia
ymgeledda fi â'th ras, ymgeledda fi â'th ras.

Nid oes ond dy ras yn unig
a ddiwalla f'eisiau mawr;
O rho'r profiad bendigedig
o'i effeithiau imi nawr:
Arglwydd gwranddo, Arglwydd gwranddo
mewn trugaredd ar fy llef,
mewn trugaredd ar fy llef.

Geiriau

Reginald Heber (1783-1826);

cyf. Nicander (Morris Williams, 1809-1876)

Cerddoriaeth | "Lilian"

Tom Price (1857-1925)

Colect

ODduw, nerth pawb sy'n ymddiried ynot,
derbyn yn drugarog ein gweddiâu a chan na
allwn, gan wendid ein natur farwol, wneud
dim da hebot ti, caniatâ inni gymorth dy ras, fel wrth
gadw dy orchmynion y bo i ni dy foddhau ar ewyllys
a gweithred; trwy lesu Grist dy Fab ein Harglwydd,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi, yn undod yr Ysbryd
Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

Y Ein Duw ar frys a ddaw, a ddaw,
a'n Duw ni thaw pan ddelo.

Rz Ein Duw ar frys a ddaw, a ddaw,
a'n Duw ni thaw pan ddelo.

"Gwrandewch, fy mhobl, a llefaraf; dygaf dystiolaeth
yn dy erbyn, O Israel; myfi yw Duw, dy Dduw
di. Ni cheryddaf di am dy aberthau, oherwydd y
mae dy boethoffrymau'n wastad ger fy mron. Rz

"Ni chymeraf fustach o'th dŷ, na bychod geifr o'th
gorlannau; oherwyddeiddoffihollfwystfilodygoedwig,
a'r gwartheg ar fil o fryniau. Yr wyf yn adnabod holl
adar yr awyr, ac eiddof fi holl greaduriaid y maes. Rz

"Pe bawn yn newynu, ni ddywedwn wrthyt ti,
oherwydd eiddof fi'r byd a'r hyn sydd ynddo. A fwytâf
fi gig eich teirw, neu yfed gwaed eich bychod geifr? Rz

"Rhowch i Dduw offrymau diolch, a thalwch eich
addunedau i'r Goruchaf. Os gelwi arnaf yn nydd
cyfyngder fe'th waredaf, a byddi'n fy anrhydeddu." Rz

Cerddoriaeth

Sam Jones

Rhufeiniaid 4:13-25

Ymae'r addewid i Abraham, neu i'w
ddisgynyddion, y byddai yn etifedd y byd,
wedi ei rhoi, nid trwy'r Gyfraith ond trwy'r
cyfiawnder a geir trwy ffydd. Oherwydd, os y rhai sy'n
byw yn ôl y Gyfraith yw'r etifeddion, yna gwagedd yw
ffydd, a diddim yw'r addewid. Digofaint yw cynnyrch
y Gyfraith, ond lle nad oes cyfraith, nid oes trosedd yn
ei herbyn chwaith. Am hynny, rhoddwyd yr addewid
trwy ffydd er mwyn iddi fod yn ôl gras, fel y byddai
yn ddilys i bawb o ddisgynyddion Abraham, nid yn
unig i'r rhai sy'n byw yn ôl y Gyfraith, ond hefyd i'r
rhai sy'n byw yn ôl ffydd Abraham. Y mae Abraham
yn dad i ni i gyd; fel y mae'n ysgrifenedig: "Yr wyf
yn dy benodi yn dad cenhedloedd lawer." Yn y Duw
a ddywedodd hyn y credodd Abraham, y Duw sy'n
gwneud y meirw'n fyw, ac yn galw i fod yr hyn nad
yw'n bod. A'r credu hwn, â gobaith y tu hwnt i obaith,
a'i gwnaeth yn dad cenhedloedd lawer, yn ôl yr hyn a
lefarwyd: "Felly y bydd dy ddisgynyddion." Er ei fod
tua chant oed, ni wanychodd yn ei ffydd, wrth ystyried
cyflwr marw ei gorff ei hun a marweidd-dra croth
Sara. Nid amheuodd ddim ynglŷn ag addewid Duw,
na diffygio mewn ffydd, ond yn hytrach grymusodd
yn ei ffydd a rhoi gogoniant i Dduw, yn llawn hyder
fod Duw yn abl i gyflawni'r hyn yr oedd wedi ei addo.
Dyma pam y cyfrifwyd ei ffydd iddo yn gyfiawnder.
Ond ysgrifennwyd y geiriau, "fe'i cyfrifwyd iddo", nid
ar gyfer Abraham yn unig, ond ar ein cyfer ni hefyd.

Y mae cyfiawnder i'w gyfrif i ni, sydd â ffydd gennym yn yr hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd oddi wrth y meirw. Cafodd ef ei draddodi i farwolaeth am ein camweddau, a'i gyfodi i'n cyfiawnhau ni.

Mathew 9:9-13, 18-26

Wrth fynd heibio oddi yno gwelodd Iesu ddyn a elwid Mathew yn eistedd wrth y dollfa, a dywedodd wrtho, "Canlyn fi." Cododd yntau a chanlynodd ef. Ac yr oedd wrth bryd bwyd yn ei dŷ, a dyma lawer o gasglwyr trethi ac o bechaduriaid yn dod a chydfwytta gyda Iesu a'i ddisgyblion. A phan welodd y Phariseaid, dywedasant wrth ei ddisgyblion, "Pam y mae eich athro yn bwyta gyda chasglwyr trethi a phechaduriaid?" Clywodd Iesu, a dywedodd, "Nid ar y cryfion ond ar y cleifion y mae angen meddyg. Ond ewch a dysgwch beth yw ystyr hyn, 'Trugaredd a ddymunaf, nid aberth'. Oherwydd i alw pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod." Tra oedd ef yn siarad fel hyn â hwy, dyma ryw lywodraethwr yn dod ato ac ymgrymu iddo a dweud, "Y mae fy merch newydd farw; ond tyrd a rho dy law arni, ac fe fydd fyw." A chododd Iesu a dilynodd ef gyda'i ddisgyblion. A dyma wraig ac arni waedlif ers deuddeg mlynedd yn dod ato o'r tu ôl ac yn cyffwrdd ag ymyl ei fantell. Oherwydd yr oedd hi wedi dweud ynddi ei hun, "Dim ond imi gyffwrdd â'i fantell, fe gaf fy iacháu." A throes Iesu, a gwelodd hi, ac meddai, "Cod dy galon, fy merch; y mae dy ffydd wedi dy iacháu di." Ac iachawyd y wraig o'r munud hwnnw. Pan ddaeth Iesu i dŷ'r llywodraethwr, a gweld y pibyddion a'r dyrfa mewn cynnwrf, dywedodd, "Ewch ymaith, oherwydd nid yw'r eneth wedi marw; cysgu y mae." Dechreusant chwerthin am ei ben. Ac wedi i'r dyrfa gael ei gyrru allan, aeth ef i mewn a gafael yn ei llaw, a chododd yr eneth. Ac aeth yr hanes am hyn allan i'r holl ardal honno.

Emyn yr Offrwm



Cofia'r newynog, nefol Dad,
filiynau llesg a thrist eu stad
sy'n llusgo byw yng nghysgod bedd,
ac angau'n rhythu yn eu gwedd.

Rho ynom dy dosturi di,
i weld mai brodyr oll ym ni:
y du a'r gwyn, y llwm a'r llawn,
un gwaed, un teulu drwy dy ddawn.

O gwared ni rhag in osgoi
y sawl ni wŷyr at bwy i droi;
gwna ni'n Samariaid o un fryd,
i helpu'r gwael yn hael o hyd.

**Dysg inni'r ffordd i weini'n llon
er lleddfu angen byd o'r bron,
rhoi gobaith gwir i'r gwan a'r prudd,
ac archwaeth dwfn at faeth y ffydd.**

**Holl angen dyn, tydi a'i gŵyr,
d'Efengyl a'i diwalla'n llwyr;
nid digon popeth hebot ti:
bara ein bywyd, cynnal ni.**

Geiriau
Tudor Davies (1923-2010)
Cerddoriaeth | "Arizona"
Robert Henry Earnshaw (1856-1929)

Emyn Ôl-Gymun



Ti, Arglwydd, fu'n dywysydd
ar hyd blynyddoedd oes,
yn gwmni ac yn gysur,
a'th ysgwydd dan ein croes:
diolchwn am bob bendith
fu'n gymorth ar y daith,
anoga ni o'r newydd
i aros yn dy waith.

Wrth gofio y gorffennol
a datblygiadau dyn,
rhyfeloedd a rhyferthwy
y dyddiau llwm a blin,
clodforwn di, O Arglwydd,
am wyrthiol waith dy ras
sy'n adfer pechaduriaid
i freintiau'r nefol dras.

Diolchwn am bob dyfais
a darganfyddiad gwiw
sy'n llesol a defnyddiol
i wella poen a briw:
clodforwn di, O Athro,
am ddysg a dawn ein hoes,
gan wybod uwch pob gwybod
Efengyl Crist y groes.

Geiriau
Denzil Ievan John
Cerddoriaeth | "Tal-y-Llyn"
Alaw Gymreig